COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FERCHER, 21AIN AWST 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd K. Swindon – Is-Gadeirydd yn y Gadair
Cynghorwyr N. Bastow (Maer), H. Fleet, A. Pearson, M. Pickard, P. Richards,

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Miss L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

124/19 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Howcroft, Chris Hughes, Mrs M. Jones, A. Kealey, A. Mason.

125/19 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganwyd y canlynol:

Cynghorydd P. Richards - eitem 12a Cyllid Grant i'r Cloc Coffa - cysylltiad personol ag un a all achosi rhagfarn fel Ymddiriedolwr Cloc Coffa Andrew Fraser.

126/19 <u>Cofnodion:</u>

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 3ydd Gorffennaf 2019.

Penderfynwyd derbyn y nodiadau o gyfarfod Gweithgor Asedau a Gwasanaethau'r Ardal Ganolog a gynhaliwyd ar 10fed Gorffennaf 2019.

127/19 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion:</u>

a. Cofnod 71/19(b) – Offer Chwarae:

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth a dderbyniwyd ganddi oddi wrth Bryn Shilland cyn y cyfarfod. Bu'r Clerc mewn cysylltiad â Bryn Shilland i ofyn i gyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) cael ei ddefnyddio, yn y lle cyntaf, i gynnal a chadw offer chwarae yn ardal Bae Colwyn cyn i gyllid y Cyngor Tref cael ei ddefnyddio i wneud gwaith trwsio na fyddai wedi cael ei wneud fel arall. Yn ei e-bost, cynigodd Bryn Shilland bod rhaglen Conwy yn dynodi'r gwaith cynnal a chadw yn seiliedig ar risg a fyddai'n dod allan o gyllid CBSC a byddai unrhyw waith oedd yn is na'r lefel yma yn cael ei gyllido allan o arian y Cyngor Tref.

Penderfynwyd bod y Clerc i ofyn am restr o'r offer sydd i'w gynnal a'i gadw allan o gyllideb CBSC a manylion am y gwaith trwsio / cyfnewid offer oedd angen ei gyllido gan y Cyngor Tref yn y man

b. Cofnod 71/19(c) - Cynnal a Chadw'r Gofeb Rhyfel:

Cyflwynodd y Clerc ddau amcan bris i gael eu hystyried am y gwaith o gynnal a chadw'r Gofeb Rhyfel.

Penderfynwyd argymell bod amcan bris B, Farmers Bronze Restoration, yn cael ei dderbyn am gost o £1,850.

Yna cafwyd trafodaeth am awgrym Farmers Bronze Restoration am raglen o gynnal a chadw blynyddol, sef system o ail-olchi a cwyro am gost o £695 y flwyddyn gydag ychwanegiad TAW.

Penderfynwyd gweld sut bydd y gwaith ar y gofeb yn edrych cyn penderfynu a ddylid cael cytundeb ar raglen o gynnal a chadw blynyddol.

Fe benderfynwyd ymhellach i gyhoeddi datganiad i'r wasg unwaith i'r gwaith cael ei gwblhau, i fod yn gysylltiedig â Sul y Cofio, i ddangos bod y gwaith wedi cael ei gwblhau.

c. Cofnod 76/19 – Mabwysiadau Ciosgau Ffôn BT:

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am yr ymdrech a wnaed i gysylltu â BT i holi a fyddai ciosgau ffôn talu yn addas i gael eu defnyddio i gadw diffibrilwyr. Cyfeiriodd at yr anhawster o gysylltu â BT ac eithrio llinell ar-lein "Mabwysiadu Ciosg" i gael ffurflen gais. Eglurodd y Clerc ei amharodrwydd i gyflwyno cais yn y modd hwn rhag ofn i hyn amlygu, yn anghywir, bod ciosg ffôn talu mo'i angen bellach a'i fod yn cael ei glustnodi ganddynt i gael ei symud.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cysylltu â BID Colwyn i ddarganfod pwy oedd y pwynt cyswllt yn nhîm Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru (parthed diffibrilwyr mewn ciosgau BT nas defnyddir bellach).

ch. Cofnod 82/19 – Grantiau i Ieuenctid:

Fe nodwyd bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

d. Gweithgor Asedau a Gwasanaethau

(i) ***Penderfynwyd diwygio'r Cylch Gorchwyl er mwyn adlewyrchu cyd aelodaeth yr Ardal Ganolog newydd sy'n cynnwys Cynghorau Cymunedau Mochdre, Llysfaen a Betws yn Rhos.***

(ii) Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc symud ymlaen gyda'r canlynol:

4(c)(iii) – gofyn am ddata addi wrth GBSC parthed y nifer o bobl ieuanc a gafodd myndediad i / budd o gynllun Ieuenctid Creadigol, ac ystyried fformiwla priodol i rannu'n deg yr hyn sy'n brin yn y cyllid;
4(c)(iv) - gofyn i'r oriel am ddadansoddiad manwl o'r costau o redeg yr oriel a chynnig cyfeiriad ar y dull orau o ddyrannu'r costau hyn yn deg;
5 – awgrymu bod pob Cyngor Tref / Cymuned yn edrych ar y gymysgedd o dir / offer ym mhob maes chwarae fel darpariaeth ar gyfer trafodaethau yn y cyfarfodydd sydd i ddod;
6a - ceisio gwybodaeth am leoliad yr 11 maes parcio di-dâl sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd;

6b - cysylltu â Chyngor Tref Llandudno i weld os yw eu cynllun toiled agored yn parhau, pwy sy'n talu amdano a faint o eiddo sydd wedi ymuno.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod hefyd wedi derbyn dogfen archwilio gan GBSC parthed asedau a'r gwasanaethau a chyflawni'r gan y Cyngor Tref ar hyn o bryd neu a fyddant yn barod i ystyried eu cyflwyno yn y dyfodol. Bydd hwn yn ymddangos ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor.

128/19 <u>Cyllid:</u>

a. ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor yn y cyfnod o 21/6/2019 i 31/7/2019 sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn, yn amodol ar fan newid (lle cafodd cofnod ei ddyblygu).***

b. ***Penderfynwyd derbyn y datganiadau cysoni'r banc fel yr oedd ar 31/7/2019 a rhoi awdurdod iddynt gael eu gwirio a'u llofnodi gan y Clerc a'r Cadeirydd.***

c. ***Penderfynwyd ail-gymeradwyo rhestr y Cyngor o daliadau rheolaidd yn unol â'r Rheoliadau Ariannol.***

ch. Cyflwynodd y Clerc y Rheoliadau Ariannol Model newydd a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol (CGCLl) / Un Llais Cymru (ULlC) i gael eu hystyried, ynghyd a rhestr o argymhellion / gweithrediadau.

Penderfynwyd argymell bod y Rheoliadau Ariannol model newydd yn cael eu mabwysiadu yn amodol ar y newidiadau a argymhellwyd gan y Clerc fel maent yn ymddangos yn Atodiad 'B' sydd gyda hwn.

d. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, gohebiaeth oddi wrth CCLA parthed y trefniadau adbryniant Cronfa Eiddo Llywodraeth Leol.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.

129/19 <u>Llywodraeth Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth / i gael ei ystyried:

a. Datganiad gan y Cabinet - Rhyddhad o Drethu Annomestig i Doiledau Cyhoeddus (a nodi archwiliad diweddar Senedd Oedolion Cymru am y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus).

Penderfynwyd nodi'r gohebiaeth.

b. Papur Ymgynghori - Cynnydd yn y cyfnod lleiaf o rybudd am orchymyn troi allan 'difai'.

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth ac anfon ymateb i ddatgan cefnogaeth i'r cynnydd yn y cyfnod lleiaf o rybudd i 6 mis.

130/19 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth:

(a) Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy - crynodeb o'r strategaeth ddewisol ynghyd ag adroddiad gan y Clerc ar y prif adrannau / paragraffau o ddiddordeb (fersiwn llawn ar gael ar-lein - 190 o dudalennau). Fe nodwyd bydd cyfarfod Arbennig o'r Cyngor yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher 11eg Medi am 6.30pm

(b) Rhwydwaith Lleol Ffibr Llawn Gogledd Cymru

Fe nodwyd i safle Neuadd y Dref cael ei gynnwys yn y rhaglen isadeiledd band llydan ffibr.

131/19 <u>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:</u>

Cyflwynodd y Clerc y canlyniad drafft ar gyfer 2018/19 i gael ei gymeradwyo.

Penderfynwyd cymeradwyo a chyhoeddi'r canlyniad drafft fel mae'n ymddangos yn Atodiad 'C' sydd gyda hwn.

132/19 <u>Y Rheolydd Pensiynau:</u>

Fe nodwyd bod ail ddatganiad o'r hunan cofrestru wedi cael ei gyflwyno.

133/19 <u>Lwfansau Ward Aelodau Lleol:</u>

Fe nodwyd na chyflwynwyd unrhyw gynigion am brosiectau gan yr Aelodau.

134/19 <u>Yr Adeilad:</u>

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bydd angen newid y brydles gyda Radio a Chyfryngau Cymunedol yr Arfordir gan gyfreithiwr lleol am gost o oddeutu £150 am nad yw Tîm Adran y Gyfraith CBSC yn gallu cynnig prydles newydd. Bydd angen i'r Cyngor Tref cyflwyno i'w cyfreithiwr, drafft cychwynnol yn seiliedig ar y brydles bresennol gyda Conwy Connect ynghyd a chais i fewnosod cymal toriad ar ôl tair blynedd.

Penderfynwyd cyfarwyddo cyfreithiwr y Cyngor i gwblhau'r Brydles drafft.

135/19 <u>Grantiau:</u>

(a) Ymddiriedolaeth Cloc Coffa Andrew Fraser:

Gadawodd y Cynghorydd P. Richards yr ystafell yn y pwynt yma am iddo ddatgan cysylltiad gallai ragfarnu yn yr eitem hon.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau am y problemau a wynebwyd dros y 10 mis diwethaf o geisio creu cyfrif banc yn enw Ymddiriedolaeth Cloc Coffa Andrew Fraser. Yn dilyn ymgynghoriad gyda Neil Pringle, CVSC, fe argymhellwyd bod y Cyngor Tref yn gwneud cais am gyllid garant o Gronfa'r Loteri Genedlaethol - Gwobrwyo Pawb (£5,000) a Chronfa Gymunedol Gwynt y Môr (£5,000) er mwyn osgoi unrhyw oedi pellach.

Cadarnhaodd y Clerc bod gan y Cyngor Tref y grym i gyllido clociau cyhoeddus a'i bod eisoes wedi addo cyllid grant o £5,000 tuag at gael cloc newydd ac mi fyddai'n

bosibl i hawlio ad-daliad o'r TAW a dalwyd, ac felly gadael mwy o gyllid yng nghronfa ymddiriedolaeth y cloc ar gyfer ei drwsio a gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i gyflwyno ceisiadau am grant yn enw'r Cyngor Tref i'r Loteri Genedlaethol – Gwobrwyo Pawb (£5,000) a Chronfa Cymunedol Gwynt y Môr (£5,000) uag at gael cloc newydd, lle mae'r Cyngor Tref eisoes wwedi cymeradwyo Grant Mawr o £5,000 fel cyfraniad y Cyngor Tref (y gweddill o'r holl gost i gael ei ad-dalu ganYmddiriedolaeth Cloc Coffa Andrew Fraser).

(b) ***Penderfynwyd nodi'r*** llythyrau o ddiolch a dderbyniwyd oddi wrth y canlynol a dderbyniodd grant:

(i) Clwb Rotari Llandrillo yn Rhos - goleuadau newydd i'r Goeden Goleuadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE POLICY AND FINANCE COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY AT 6.30 PM ON WEDNESDAY 21st AUGUST 2019

PRESENT: Cllr K Swindon (Vice - Chairman)
Cllrs: N Bastow (Mayor), H Fleet, T Pearson, M Pickard, P Richards

OFFICERS: C Earley, Town Clerk
L Austin, Administrative Assistant

124/19 Welcome and Apologies for Absence:

The Chairman welcomed Members to the meeting. Apologies were received from Cllrs: D Howcroft, C Hughes, Mrs M Jones, A Kealey, A Mason.

125/19 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. The following interest was declared:

Cllr P Richards - item 12a Grant Funding for Memorial Clock - personal and prejudicial interest as a Trustee of the Andrew Fraser Memorial Clock.

126/19 Minutes:

Resolved to approve and sign, as a correct record, the Minutes of the last meeting, held on 3rd July 2019.

Resolved to receive the notes from a meeting of the Central Area Assets & Services Working Group, held on 10th July 2019.

127/19 Matters Arising from the Minutes

(a) Min. 71/19(b) – Play Equipment:

The Clerk submitted information from Bryn Shiland received prior to the meeting. The Clerk had previously contacted B Shiland to request that CCBC funds are used first to maintain the play equipment in the Bay of Colwyn area before the Town Council funds are allocated for the repairs that would not ordinarily be done. In his email, B Shiland proposed that the Conwy programme would identify the risk based maintenance that would come under the CCBC monies and that any works below this level would then be funded by Town Council funds.

Resolved to request the Clerk requests a list of the equipment to be maintained from the CCBC budget and details of the repairs/replacements requiring funding from the Town Council, in due course.

(b) Min. 71/19(c) – War Memorial Maintenance:

The Clerk submitted for consideration two quotes received for the maintenance of the war memorial.

Resolved to recommend that Quote B, Farmers Bronze Restoration, to be accepted at a cost of £1850.

Members then discussed the suggestion from Farmers Bronze Restoration of a yearly maintenance programme of a re-wash and wax system at a cost of £695 plus VAT per annum.

Resolved to see how the memorial fairs before deciding whether to enter into an annual maintenance programme.

Further resolved, once the refurbishment is complete, that a press release be issued, linked in with Remembrance Sunday, to show the works that had been done.

(c) Min. 76/19 - Adoption of BT Kiosks:

The Clerk gave a verbal report on the attempt to contact BT to enquire if working payphone kiosks could also be used to house y defibrillators, advising Members that there was difficulty in contacting BT other than through their online "Adopt a Kiosk" submission form. The Clerk explained her reluctance in submitting a request in this way in case it wrongly highlighted that a payphone is no longer required and they earmark it for removal.

Resolved to request the Clerk contacts Colwyn BID to find out who their contact is at Welsh Ambulance Trust (in connection with defibrillators in disused BT kiosks).

(d) Min. 82/19 – Youth Grants:

It was noted that a further report will be brought back to the next meeting.

(e) Assets & Services Working Group:

(i) ***Resolved to amend the Terms of Reference, to reflect the new Central Area joint membership, due to Mochdre, Llysfaen and Betws yn Rhos Community Councils now being involved.***

(ii) Resolved the authorise the Clerk to proceed with the actions in:

4(c)(iii) – to request data from CCBC the number of young people who have accessed/benefitted from the Young Creatives scheme, and consider an appropriate formula to split the funding shortfall fairly;
4(c)(iv) – to request from the gallery a detailed breakdown of costs of running the gallery and offer some direction on the fairest way to apportion these costs;
5 - to suggest each Town/Community Council looks at the land/equipment mix in each of the play areas in preparation for discussion at future meetings;
6a – to request information on the location of the remaining 11 free car parks which are currently under review;
6b – to contact Llandudno Town Council to see if their open toilet scheme is still open, who pays for it and how many premises have signed up.

The Clerk also informed Members that she has received a survey document from CCBC in connection with assets and services that the Town Council currently delivers or would be willing to consider delivering in future. This will be on the agenda for the next Council meeting.

128/19 <u>Finance</u>:

(a) Resolved to authorise payments made on behalf of the Council for the period 22/6/19 to 31/7/19, as detailed in Schedule 'A' attached, subject to a minor amendment (where an entry had been duplicated).

(b) Resolved to receive and authorise the Clerk and Chair to check and sign a copy of the bank reconciliations as at 31/7/2019.

(c) Resolved to re-approve the council's schedule of regular payments in accordance with the Financial Regulations.

(d) The Clerk submitted, for consideration, the New Model Financial Regulations, issued by NALC/OVW, together with a list of recommendations/actions.

Resolved to recommend adoption of the new model Financial Regulations, subject to the amendments recommended by the Clerk, as detailed in Schedule 'B' attached.

(e) The Clerk submitted, for information, correspondence from CCLA, regarding Local Authorities' Property Fund redemption procedures.

Resolved to receive and note the correspondence.

129/19 <u>Welsh Government</u>:

The Clerk submitted for information/consideration the following correspondence:

(a) Cabinet Statement – Non-Domestic Rate Relief for Public Lavatories (and note a recent survey from the Welsh Senate of Older People about public toilet provision).

Resolved to note the correspondence.

(b) Consultation Paper– Increasing the minimum notice period for a 'no fault' eviction.

Resolved to note the correspondence and send a response in support of the increase of the minimum notice period to 6 months.

130/19 <u>Conwy County Borough Council</u>:

The Clerk submitted the following correspondence for information/correspondence:

(a) Conwy Replacement LDP – summary of the preferred strategy, together with a report from the Clerk on the main sections/paragraphs of interest (full version available online – 190 pages). It was noted that a Special Council meeting is being held on Wednesday 11th September at 6.30pm.

(b) North Wales Local Full Fibre Network:

It was noted that the Town Hall site has been included in the fibre broadband infrastructure programme.

131/19 <u>Independent Remuneration Panel for Wales</u>:

The Clerk submitted for approval the draft return for 2018/19.

Resolved to approve and publish the draft return, as detailed in Schedule 'C' attached.

132/19 <u>The Pensions Regulator</u>:

It was noted that a re-declaration for auto-enrolment has been submitted.

133/19 <u>Local Members Ward Allowances</u>:

It was noted that no project proposals had been received from members.

134/19 <u>Premises:</u>

(a) The Clerk advised Members that the lease for Coast Community Radio and Media will need to be amended by a local solicitor, at a cost of approximately £150, as the CCBC Legal team is not able to provide an amended lease. The Town Council will need to provide its solicitor with an initial draft, based on the existing lease to Conwy Connect, together with the request to insert a break clause after three years.

Resolved to instruct the Council's solicitor to complete the draft Lease.

135/19 <u>Grants</u>:

(a) Andrew Fraser Memorial Clock Trust:

Cllr P Richards left the meeting room at this juncture due to a prejudicial interest in this item.

The Clerk informed Members of the problems faced over the last 10 months in trying to set up a bank account in the name of the Andrew Fraser Memorial Clock Trust and, after consultation with Neil Pringle at CVSC, recommended that the Town Council apply for grant funding from the National Lottery Awards for All (£5,000) and Gwynt Y Mor Community Fund (£5,000), to prevent any further delays.

The Clerk confirmed that the Town Council does have the power to fund public clocks, it had already pledged £5,000 of grant funds towards the replacement clock and would be able to reclaim the VAT paid, thus leaving greater funds in the clock trust fund for future repairs and maintenance.

Resolved to authorise the submission of grant applications in the name of the Town Council to National Lottery Awards for All (£5,000) and Gwynt y Mor Community Fund (£5,000) towards the replacement town clock, for which a large grant of £5,000

has already been approved as the Town Council's contribution (the balance of the total cost to be reimbursed from the Andrew Fraser Memorial Clock Trust).

(b) Resolved to note that letters of thanks have been received from the following grant recipients:
(i) Rhos on Sea Rotary Club – new lights for Tree of Lights.

The meeting closed at 7.45pm.

……. Chairman